CYNLLUN BUSNES 2010-11 Y CPS

Yn y cynllun hwn disgrifir, ar lefel uchel, y gwaith a wnaethom hyd yma yn 2010-11 a'r gwaith rydym yn bwriadu ei wneud. Mae llawer o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y pedair blynedd nesaf, sef y cyfnod a ddaw o dan Adolygiad o Wariant 2010.

Fel pob gwasanaeth cyhoeddus, bydd y CPS yn wynebu cyfnod o newid sylweddol yn y blynyddoedd i ddod, wrth iddo geisio cyflwyno gwasanaeth o ansawdd i'r cyhoedd a sicrhau gostyngiadau sylweddol yn ei gostau. Bydd y gostyngiadau hyn yn y costau yn dod i rym o fis Ebrill nesaf ac mae'n bwysig bod y CPS yn ymateb yn gadarnhaol, yn gyflym ac awdurdodol i'r her.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y CPS yn syml ond yn gadarn: - rhaid inni seilio ein gwasanaeth ar ansawdd ein penderfyniadau a'n gweithredoedd ac, ar yr un pryd, rhaid inni fod yn gost-effeithiol ym mhopeth a wnawn. Rydym yn credu bod ansawdd ac effeithlonrwydd yn mynd law yn llaw. Wrth ymgyrraedd at fod yn fwy effeithlon, nid oes raid i hynny ddigwydd ar draul ansawdd. Mae'r themâu hyn yn treiddio trwy bopeth a geir yn y cynllun cryno hwn.

Rydym ar drothwy cyfnod newydd. Mae canlyniad yr Adolygiad o Wariant yn golygu bod gofynion heriol yn ein hwynebu. Mae'n golygu bod yn rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, ond heb gyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaeth.

Bydd cyllideb y CPS y gostwng 25% erbyn 2015. Fe fydd yn anodd dros ben sicrhau'r gostyngiad hwn ond buom yn gwneud paratoadau gofalus ers peth amser ac rydym yn credu bod y sefydliad mewn sefyllfa gystal ag y bo modd er mwyn cyflwyno'r arbedion hyn.

Oherwydd graddau'r toriadau angenrheidiol, nid mater o wneud mwy am lai yn unig yw hyn. Mae arnom angen meddylfryd newydd, ffordd newydd o o feddwl am ein gwaith; rhaid inni edrych ar ffyrdd newydd o gynnal ein busnes a sicrhau ein bod yn derbyn y gwerth gorau am bob punt a wariwn. Y mae cyfle gwirioneddol inni fan hyn; dyma'r cyfle gorau mewn cenhedlaeth i foderneiddio'r ffordd rydym yn cydweithio â'n partneriaid yn y system cyflawnder troseddol i gael gwared ar wastraff. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd gyda chyllideb sy'n llawer is.

Gyda gwaith caled ac ymroddiad ein staff, rydym yn gwybod y bydd y CPS yn 2015 yn fwy abl, yn llai gwastraffus ac yn lle cyffrous i weithio.

Keir Starmer QC
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Peter Lewis
Prif Weithredwr

AMDANOM NI
Cafodd y CPS ei sefydlu yn 1986 fel awdurdod annibynnol i erlyn achosion troseddol a ymchwilir gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Wrth ymgymryd â'r rôl hon, bydd y CPS yn:

- Cynghori'r heddlu yn ystod camau cynnar ymchwiliadau;
- Pennu'r cyhuddiadau priodol mewn achosion mwy difrifol neu gymhleth;
- Adolygu pob achos yn barhaus a phenderfynu pa achosion y dylid eu herlyn;
- Paratoi achosion ar gyfer eu herlyn ac erlyn yr achosion gan ddefnyddio adfocadau mewnol, adfocadau hunangyflogedig neu asiantiaid i gyflwyno achosion yn y llys, a
- Darparu gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad.

Mae'r ffordd y bydd y CPS yn ymgymryd â'i rôl yn cael ei rheoli gan ddwy ddogfen allweddol: sef Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron; a Safonau Ansawdd Craidd (CQS). Mae'r CQS yn pennu ansawdd y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w ddisgwyl gan y rhai sy'n erlyn ar eu rhan. Maent yn berthnasol i bawb sy'n cyflwyno'r gwasanaeth erlyn.

EIN GWELEDIGAETH AR GYFER Y CPS
Mae'r weledigaeth ganlynol ar gyfer y CPS yn berthnasol nawr, yn 2010-11, ac ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant tan 2015.

Beth fyddwn ni?
Gwasanaeth erlyn llyfn, sy'n perfformio'n dda, sy'n canolbwyntio'n ddiflino ar ansawdd ac sy'n cael ei barchu am ei broffesiynoldeb.

Byddwn yn hyderus a chryf.
Bydd pobl yn ymddiried yn ein herlynwyr, byddant yn gwneud penderfyniadau cadarn am erlyn heb gyfeirio'n ddianghenraid. Byddant wedi paratoi'n drwyadl ar gyfer y llys ac yn herio eraill sydd heb baratoi'n dda. Bydd ein holl aelodau staff yn barod i ddatrys problemau ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Byddwn yn dylanwadu ar ein partneriaid cyfiawnder er mwyn gwneud y system gyfan yn fwy effeithlon a gwell.

Byddwn yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau.
Byddwn yn gwneud pob penderfyniad erlyn yn rhydd rhag dylanwad amhriodol ac er budd cyfiawnder. Byddwn yn parchu a sefyll dros hawliau dioddefwyr. Byddwn yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'n partneriaid cyfiawnder. Ond ni ein hunain fydd yn gwneud ein penderfyniadau am waith achosion.

Byddwn yn agored, yn atebol a theg.
Byddwn yn egluro ein penderfyniadau a rhoi cyfrif am y gwasanaeth a gyflwynwn.
Byddwn yn trin ein staff yn deg a gyda pharch ac urddas, gan sefydlu athroniaeth *Un CPS* yn ein holl dimau.
Bydd dewisiadau gyrfa wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer ein staff, a chyfle iddynt ddatblygu i'w llawn botensial.

Byddwn yn effeithlon.
Byddwn yn gostwng gwariant trwy sefydlu diwylliant o fod yn ymwybodol o gostau ar bob lefel a chael y gwerth gorau am arian.
Byddwn yn symleiddio ein polisïau a'n prosesau, gan wneud erlyniadau mor syml â phosib.

Byddwn yn cyflwyno gwelliannau o'r naill flwyddyn i'r llall o ran effeithlonrwydd ac economi, trwy symleiddio ein prosesau busnes a defnyddio technoleg gwybodaeth i'r eithaf.
Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cyflawnder troseddol i ddatblygu a chyflwyno System Cyfiawnder Troseddol effeithlon ac effeithiol.

Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd Lleol

Pennaeth y CPS yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP). Arolygir y Cyfarwyddwr gan Dwrnai Cyffredinol Ei Mawrhydi, sy'n atebol i'r Senedd am y Gwasanaeth.

Y DPP sy'n pennu strategaeth, polisi, a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y CPS. Mae'r Gwasanaeth cenedlaethol yn cael ei gyflwyno'n lleol gan 42 Prif Erlynydd y Goron mewn 13 Grŵp. Prif Erlynwyr y Goron sy'n gyfrifol am ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth y maent yn ei gyflwyno i'r cyhoedd.

Bydd Adrannau Gwaith Achos Arbenigol yn ymdrin ag achosion cymhleth neu sensitif, gan gynnwys terfysgaeth, troseddu cyfundrefnol, twyll ac achosion arbennig o sensitif fel hunanladdiad â chymorth. Mae CPS Direct yn darparu cyngor am gyhuddo i'r heddlu 24 awr y dydd.

Rydym eisiau sicrhau bod Prif Erlynwyr y Goron (CCP) yn cael rhyddid a hyblygrwydd i gyflwyno gwasanaeth erlyn effeithiol. Byddwn yn gosod llai o amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol ond byddant yn eglurach ac yn cael eu cyfyngu i'r meysydd hynny ble mae'n hanfodol cael cysondeb cenedlaethol, er enghraifft, o ran y Safonau Ansawdd Craidd.

Fel cam cyntaf yn yr ymdriniaeth newydd hon, ni fyddwn yn gosod targedau cenedlaethol ar gyfer gwaith achos neilltuol eleni. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn ymboeni llai am yr achosion hynny y buom yn eu targedu o'r blaen. Bydd pob trosedd y byddwn yn ei erlyn yn amodol ar ein Safonau Ansawdd Craidd er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn y gofal a'r sylw haeddiannol. Bydd meysydd arbennig o sensitif neu anodd o'n gwaith yn derbyn sylw gan ein cyfreithyddion arbenigol a byddwn yn sicrhau bod yr arbenigwyr hyn yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad clir er mwyn cyflwyno Safonau Ansawdd Craidd yn yr achosion hyn.

Mae gan y CPS ymrwymiad i ymgysylltu â chymunedau, sy'n cael ei ddisgrifio yn ein Safonau Ansawdd Craidd. Mae gennym nifer o fforymau lleol y bydd CCPau yn eu defnyddio ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys Paneli Cynnwys Cymunedau. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â'n partneriaid lleol i rannu gwybodaeth am bryderon a materion yn y gymuned.

Fel rhan o ddatganoli cyfrifoldeb i Grwpiau, bydd Pencadlysoedd (HQ) y CPS yn crebachu 50% dros y cyfnod at 2015. Yn ystod 2010-11, rydym wedi gweithredu ein hadolygiad o Bencadlysoedd y CPS er mwyn cael HQ sydd mewn gwell cyflwr ac sy'n canolbwyntio'n well; hwn fydd yn pennu'r fframwaith cenedlaethol y mae'r CPS yn gweithredu o'i fewn, yn rhoi sylw i'r materion hynny sy'n galw am rywfaint o gytundeb canolog, er enghraifft, yn ein cysylltiadau â Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, ac yn cyflwyno'r gwasanaethau hynny na ellir ond eu cyflwyno'n effeithlon o'r canol.

EIN BLAENORIAETHAU

Mae'r tabl canlynol yn disgrifio ein blaenoriaethau pwysicaf, yr hyn a wnaethom hyd yma yn 2010-11 a'r hyn y bwriadwn ei wneud. Nid yw'r tabl yn cynnwys yr holl waith a wnawn.

Blaenoriaeth	Yr hyn a wnaethom	Yr hyn y bwriadwn ei wneud
Safonau Ansawdd Craidd (CQS) Mae'r CQS yn cwmpasu pob agwedd o bwys ar ein gwaith. Maent yn egluro i'r cyhoedd pa wasanaeth y gallant ei ddisgwyl gennym, ac i ba safon y byddwn yn ei gyflwyno. Bydd y CQS yn ein gwneud yn fwy agored ac atebol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.	Cyflwyno rhaglen sicrhau ansawdd gynhwysfawr (o'r enw CQSM) i sicrhau bod ein gwaith achos yn gyson â gofynion CQS.	Datblygu rhai disgwyliadau o ran cynhyrchiant ar gyfer gweithgareddau erlyn penodol i fynd ochr yn ochr â CQS. Bydd y rhain ar gael i'w defnyddio yn 2011-12
Effeithlonrwydd Fel gwasanaeth cyhoeddus, ein dyletswydd yw gweithio i'r safon uchaf am y gost isaf bosib. Byddwn yn ymgysylltu'n adeiladol ac egnïol gyda'r Adolygiad o Wariant er mwyn sicrhau ein bod wedi archwilio pob cyfle i gyflwyno ein gwasanaeth yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.	Gosod targedau i sicrhau bod ein Hunedau gweithredol yn rheoli eu cyllidebau o fewn y ddarpariaeth ariannol a ddyrannwyd iddynt, a gostwng Costau Uned achosion yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon. Ail-leoli pencadlys Llundain a gweithredu cynlluniau ar gyfer gostwng 50% ar gost gyffredinol y pencadlysoedd (Llundain ac Efrog) erbyn 2015. Mae hyn yn cynnwys rheoli niferoedd staff a rheolaeth gaeth ar recriwtio newydd. Gweithredu proses gaffael newydd er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian o bob contract a phryniant.	Gweithio gyda'n partneriaid CJS yn genedlaethol a lleol i ddatblygu ffyrdd o ddarparu'r busnes cost-effeithiol gorau a chynyddu arbedion effeithlonrwydd. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd newydd ac effeithiol o ymdrin â phledion euog yn Llys y Goron a rhoi prawf ar ddefnyddio proses ffeilio a gweinyddu unigol gyda'r heddlu. Datblygu strategaeth breswyl er mwyn gostwng maint a chost ein hystad dros y cyfnod at 2015. Symleiddio polisïau a phrosesau er mwyn sicrhau bod erlyn mor syml â phosib a chael gwared ar unrhyw fiwrocratiaeth ddianghenraid. Adolygu ein strwythurau atebolrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
Gweddnewid trwy Dechnoleg (T3) Trwy gyfrwng T3 gallwn weithio yn fwy effeithiol ac effeithlon trwy symud i ffwrdd oddi wrth weithio yn seiliedig ar bapur a symud at fod yn sefydliad lle mae'r holl wybodaeth allweddol ar gael yn electronig, ni waeth beth yw swyddogaeth a lleoliad. Mae T3 yn rhan annatod ac arwahanol o gynlluniau effeithlonrwydd y CPS a'r CJS.	Cwblhau'r dasg o weithredu seilwaith technoleg gwybodaeth ar ei newydd wedd. Datblygu ffyrdd newydd o weithio gan ddefnyddio'r dechnoleg gwybodaeth ar ei newydd wedd, gan gynnwys ffyrdd o weithio'n ddigidol ar achosion mawr, cymhleth sydd â llawer iawn o dystiolaeth.	Gweithio gyda'n partneriaid CJS yn genedlaethol a lleol i ddefnyddio dulliau digidol i'r eithaf i gyfnewid gwybodaeth a chynnal erlyniadau. Mae hyn yn cynnwys rhoi prawf yn lleol ar gyfnewid data am achosion rhwng yr heddlu a'r CPS a defnyddio technoleg cyswllt fideo ar gyfer gwrandawiadau llys.

Blaenoriaeth	Yr hyn a wnaethom	Yr hyn y bwriadwn ei wneud
Dioddefwyr a Thystion Mae darparu cefnogaeth a gwybodaeth am achosion i ddioddefwyr a thystion yr erlyniad yn rhan ganolog o sicrhau eu bod yn barod i fynychu'r llys ac yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe ddatblygwyd nifer o bolisïau a mentrau mewn perthynas â'r gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr a thystion a bellach rydym yn canolbwyntio ar symleiddio ac egluro'r ymrwymiadau hynny	Cwblhau cyfres o weithdai hyfforddiant i Reolwyr Gofal Tystion er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn Adolygiad Thematig ar y cyd gan Arolygwyr o brofiadau dioddefwyr a thystion, gan arwain at Gynllun Gweithredu Cenedlaethol i'w gyflawni. Diweddaru canllawiau Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV), gan ganolbwyntio mwy ar ansawdd y cyfathrebu ac arferion gorau. Creu ffordd fwy realistig o fesur perfformiad mewn perthynas ag ansawdd llythyrau DCV. Cwblhau adolygiad cydymffurfio â'r Cynllun Canolbwyntio ar Ddioddefwyr Dechrau paratoi Llawlyfr Arweiniad i Unedau Gofal Tystion	Ymgymryd â phrosiect i adolygu pob ymrwymiad gan y CPS ac ar draws y CJS o ran dioddefwyr a thystion er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a rhesymegol ac wedi'u targedu ble mae eu hangen fwyaf, gan sicrhau bod disgwyliadau dioddefwyr a thystion yn cael eu rheoli'n effeithiol o ran y gefnogaeth y byddant yn ei derbyn.
Moderneiddo Cyhuddo Mae Rhaglen waith Moderneiddio Cyhuddo yn adeiladu ar fanteision Cyhuddo Statudol a wireddwyd yn barod. Mae hyn yn ceisio cyflwyno: • gwell ansawdd trwy fynd ati'n well i deilwra ymgynghoriadau niferus ac wyneb yn wyneb, o ran amser a sgiliau arbenigol, a chaniatáu penderfyniadau mwy cyson; • mynediad haws yn sgil penderfyniadau cyflymach a thrwy gael cyngor mwy prydlon; a • gwell gwerth am arian trwy ostwng oedi a gwaith papur dianghenraid, a • chynhyrchiant uwch ar gyfer y CPS a'r heddlu.	Cyflwyno'r trefniadau cyhuddo cenedlaethol newydd yn ystod y dydd er mwyn rhoi mynediad amser real i ymchwilwyr yr heddlu at Erlynwyr y CPS ar gyfer achosion niferus gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a ffonau, gan gadw cyngor wyneb yn wyneb ar gyfer yr achosion mwy difrifol. Cyflwyno'r safonau cyhuddo ar y cyd a'r mesurau cyflawni. Mae'r rhain yn rhoi data i'r heddlu a rheolwyr y CPS am brosesu achosion a'u canlyniadau. Mae'r Safonau hefyd yn cyd-fynd â Safonau Ansawdd Craidd (CQS) y CPS. Cynnal cynlluniau peilot i brofi a gwerthuso'r posibilrwydd o ddychwelyd y troseddau canlynol at yr heddlu i'w cyhuddo. • Pob trosedd Diannod yn unig, ni waeth beth yw'r ple; • Difrod troseddol i eiddo a brisir yn llai na £5000 ni waeth beth yw'r ple; • Trafod nwyddau wedi'u dwyn – gan ragweld ple Euog; a • Phob trosedd Deddf Twyll 2006 sy'n addas i'w benderfynu'n ddiannod – gan ragweld ple Euog.	Ar sail y cynlluniau peilot a'r gwerthusiad, rhoi'r trefniadau Cyhuddo diwygiedig ar waith ar draws pob rhanbarth erbyn 31 Mehefin 2011. Rhoddir hyn ar waith ar sail y troseddau y rhoddwyd prawf arnynt yn y cynlluniau peilot. Gydag ACPO, ystyried unrhyw droseddau eraill y gellid eu dychwelyd at yr heddlu i'w cyhuddo a'r risgiau a'r effeithiau posib wrth wneud hyn. Datblygu cynnig i dreialu'r dewis gorau ac ymgymryd â threialon pellach ar y gwaith hwn.

Blaenoriaeth	Yr hyn a wnaethom	Yr hyn y bwriadwn ei wneud
	Cafodd troseddau yn gysylltiedig â thrais domestig a throsedd casineb eu heithrio, yn ogystal ag unrhyw droseddau moduro ble bu marwolaeth, troseddau terfysgol ac unrhyw achosion sy'n gofyn am gydsyniad y Twrnai Cyffredinol a'r DPP.	
Model Busnes Optimwm (OBM) Ein Hunedau Gweithredol sy'n gyfrifol am welliant parhaus. Rydym eisiau sicrhau ein bod wedi manteisio ar fuddion OBM yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon a gweithredu'r strwythur paragyfreithiol i ddefnyddio ein staff paragyfreithiol talentog yn fwy effeithiol.	Cwblhau cyflwyno OBM i gefnogi ein gwaith yn Llys y Goron.	Gwelliannau pellach i effeithlonrwydd trwy ostwng nifer y tasgau gweinyddol y mae angen ymgymryd â nhw. Defnyddio swyddogion paragyfreithiol i'r eithaf er mwyn cefnogi ein herlyniadau.
Trais yn erbyn menywod a merched (VAWAG) Sicrhau gwell ymateb erlyn o ran amryw o droseddau sy'n dod dan ymbarél VAWAG, gan gynnwys: Trais Domestig, gan gynnwys aflonyddu; troseddau anrhydedd bondigrybwyll; Treisio a throseddau rhywiol; a'r fasnach mewn pobl, gan ganolbwyntio ar y fasnach mewn ecsbloetio rhywiol.	Cyhoeddi mesurau i wella erlyniadau mewn achosion o dreisio a mynd ati'n benodol i samplu troseddau treisio mewn CQSM i fonitro ansawdd ein perfformiad. Gwella ein gallu ar lefel Grŵp i arolygu perfformiad VAWAG. Rhoi canllawiau cyfreithiol ar rybuddiadau amodol gydag amodau sy'n benodol i fenywod ac ymgorffori canllawiau penodol ar ddioddefwyr treisio neu drais rhywiol yn y canllaw DCV.	Gweithio gydag eraill ar draws y llywodraeth i ddatblygu ymateb i'r adolygiad annibynnol ar achosion o dreisio.
Gwell Polisïau Pobl Mae angen i wasanaeth erlyn gael ei ategu gan bolisïau sy'n cefnogi'r dasg o ddefnyddio a rheoli ei bobl yn hyblyg.	Adolygu a diwygio ein polisïau pobl i sicrhau eu bod yn cyfateb i'n anghenion presennol ac yn y dyfodol.	Datblygu proffiliau staffio i gyfateb i'n gofynion o ran adnoddau a gweithredu ar gyfer 2011-15. Gweithredu'r polisïau trwy 2011 a thu hwnt.
Adfocatiaeth Ymgymryd ag adfocatiaeth o ansawdd uchel, cost-effeithiol mewn llysoedd ynadon, Llys y Goron a llysoedd uwch.	Sefydlu Erlynwyr Cyswllt (AP) fel adfocadau mewn llysoedd ynadon. Rhoi prawf ar ddefnyddio AP mewn Llysoedd Ieuenctid. Datblygu a sefydlu Adfocadau'r Goron (CA) fel adfocadau yn Llys y Goron. Datblygu a gweithredu Dyddiadur CA electronig, i gynorthwyo i ddefnyddio CA. Gwella ein perthynas â'r Bar, sy'n cynrychioli prif ddarparwyr gwasanaethau adfocatiaeth. Gweithio gyda'r Bar i ddatblygu cynigion ar gyfer Paneli Adfocadau – ffordd newydd o ddarparu paneli llai, ag amserlen gyfyngedig, o adfocadau hunangyflogedig a ddewisir yn erbyn meini prawf penodol. Gweithio'n agos ag ILEX i baratoi'r ffordd i ILEX ddod yn rheoleiddiwr proffesiynol ar Erlynwyr Cyswllt. Uno cynlluniau ffïoedd y CPS ac RCPO.	Parhau â thrafodaethau a cheisio cael cytundebau gyda'r Bar i symleiddio cynlluniau ffioedd cwnsleriaid a gostwng gwariant a ffïoedd cwnsleriaid dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant a gweithredu cynlluniau newydd ar gyfer ffioedd cwnsleriaid. Gweithredu Paneli Adfocatiaid. Adolygu ac addasu ymdriniaeth y CPS ag asesu adfocatiaeth ar gyfer 2011-12. Datblygu model(au) ar gyfer defnyddio adfocatiaeth i'w heithaf yn Llys y Goron. Parhau i ddatblygu rôl AP, yn enwedig mewn perthynas â gwaith y Llys ieuenctid.

EIN PERFFORMIAD

Yn 2010-11 rydym wedi cyflwyno fframwaith newydd i sicrhau ansawdd ar gyfer grwpiau ac adrannau gwaith achos, ar sail data ansoddol a meintiol. Mae'r ymdriniaeth newydd yn fwy soffistigedig nag yn y blynyddoedd blaenorol a bydd yn cynnwys:

- ansawdd y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu (wedi'i fesur yn erbyn CQS);
- y ffordd rydym yn ymdrin â bron i 1 miliwn o achosion rydym yn eu herlyn bob blwyddyn ac adolygu'r canlyniadau;
- y ffordd rydym yn rheoli cyllidebau a chyflwyno gostyngiadau mewn costau;
- canlyniadau'r arolwg staff a mesurau eraill yn gysylltiedig â phobl; a
- barn yr arolygiaeth a phartneriaid allweddol yn y system cyfiawnder troseddol.

Mewn cyferbyniad â blynyddoedd blaenorol, dim ond dau darged a osodwyd ar gyfer 2010-11:

- sicrhau ein bod yn dod i ben â phethau o fewn y gyllideb a roddwyd i ni; a
- sicrhau bod Grwpiau yn gostwng cost gyfartalog pob achos a erlynir.

Yn ogystal â'r ddau darged, rydym wedi datblygu mesurau dilysu i adrodd am berfformiad ym meysydd cyllid, cynhyrchiant, a rheoli pobl. Mae'r data hwn yn ychwanegol er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei reoli yn ei holl agweddau, ond nid oes targedau wedi'u gosod.

Ar lefel genedlaethol, byddwn yn adrodd dan agenda tryloywder y Llywodraeth trwy gyhoeddi data yn unol â pholisi'r Llywodraeth, gan gynnwys ar:

- Eitemau newydd o wariant dros £25,000;
- Costau cyflogau ar gyfer yr Uwch Staff ar lefel 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil ac uwch.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i adrodd yn erbyn nifer o fesurau mewn perthynas â chynaliadwyedd, gan gynnwys:

- Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr;
- Lleihau a rheoli gwastraff;
- Defnyddio Adnoddau Cyfyngedig;
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth; a
- Chaffael Cynaliadwy.

Yn olaf, byddwn hefyd yn adrodd ar gynrychiolaeth ein gweithlu o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys ethnigrwydd, rhyw ac anabledd.

Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad blynyddol ar gyfer 2010-11 (i'w gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2011).

EIN HADNODDAU A RISGIAU
Ein cyllid (ein Terfyn Gwariant Adrannol) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol hon yw £646M. Byddwn hefyd yn derbyn incwm ychwanegol o gostau a ddyfernir i'r CPS, derbyniadau wrth adennill asedau troseddol, a throsglwyddiadau o adrannau eraill. Ein rhagamcaniad yw y bydd y rhain yn rhoi incwm o £68M. Mae ein cyllid cyffredinol ar gyfer y flwyddyn 2010-11 yn cynrychioli gostyngiad sylweddol ar gyllideb y flwyddyn flaenorol ac wrth roi ystyriaeth i chwyddiant mae angen i ni gyflawni £26M ychwanegol o arbedion effeithlonrwydd gan gynyddu'r targed gwerth am arian bras ar gyfer 2010-11 i £83M.

Bydd gwelliannau yn y gweithgareddau rheng flaen yn rhoi arbedion o £52M a bydd mwy o effeithlonrwydd mewn gwasanaethau gweinyddol a chymorth yn rhoi arbedion pellach o £17M.

O ganlyniad i uno'r CPS ac RCPO, byddwn yn gallu cyflawni arbedion ychwanegol o £14M.

Rydym eisoes wedi cymryd mesurau helaeth i baratoi ar gyfer canlyniad SR2010, gan gynnwys cyflwyno rheolaeth ar recriwtio, gwariant ar ymgynghori, marchnata a theithio a chynhaliaeth ac aildrafod y contract ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a chyfathrebu. Y mae gennym Strategaeth Ystadau newydd a fydd, ynghyd â Rhaglen T3, yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadeiladau a'n seilwaith.

Mae Cyfarwyddwr y Pencadlysoedd a Chadeiryddion Grŵp yn parhau i baratoi cynlluniau manwl er mwyn bod yn barod i gwrdd â'r heriau ariannol sydd i'w hwynebu dros y pedair blynedd nesaf at 2014-15, er mwyn cyflawni arbedion mewn termau real o 25%. Bydd hyn yn effeithio ar bob rhan o'r CPS a byddwn yn gweithio'n agos â gweddill y system cyfiawnder troseddol i sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd a darparu lefel y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl.

Risgiau
Rydym yn wynebu amrywiaeth o risgiau a bygythiadau o ran cynnal gwasanaeth erlyn cyhoeddus effeithiol i'r cyhoedd. Mae'r risgiau pwysicaf yn cael eu hamlinellu yn ein cofrestr risg gorfforaethol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli ar lefel Bwrdd y CPS trwy gyfres o wrthfesurau a gweithredoedd. Mae ein fframwaith perfformiad yn cynnwys mesurau sy'n adlewyrchu pa mor llwyddiannus rydym yn rheoli'r risgiau allweddol.

Mae ein cofrestr risg gorfforaethol yn cwmpasu cyfnod y tu hwnt i 2010-11, a byddwn yn rheoli'r risgiau trwy gyfrwng cymysgedd o ymdriniaethau cenedlaethol a lleol. Mae ein risgiau allweddol cyfredol yn seiliedig ar:

- Ein gallu i ymateb yn effeithiol i batrymau newidiol troseddau, penderfyniadau a'u niferoedd;
- Rheoli ein hymrwymiadau i ddioddefwyr a thystion gyda llai o adnoddau a blaenoriaethau sy'n newid;
- Yr hinsawdd ariannol fwy heriol sy'n profi ein gallu rheoli ariannol;
- Cymhwyso'r Safonau Ansawdd Craidd yn anghyson ar draws y Rhanbarthau gweithredol, gan effeithio ar ein cyflawniad yn gyffredinol;
- Ein gallu i nodi tueddiadau gwael sydd i'w gweld mewn perfformiad ac ymyrryd yn brydlon lle bo angen;

- Rheoli blaenoriaethau a hysbysir yn lleol yn erbyn blaenoriaethau a safonau cenedlaethol; ac
- Effeithiau cyfyngiadau ariannol ar Bartneriaid Cyfiawnder Troseddol a rhanddeiliaid eraill yn cyfyngu ar eu cysylltiad â'r CPS gan gael effaith ar ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol.